y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVIII RHIF 2 | DYDD GWENER, IONAWR 8, 2010 | Pris 40c

NEWID AELWYD

MOSS SIDE, MANCEINION – 1959-2009

Ar gongl Lloyd Street a Moss Lane, i'r dde o ganol ddinas Manceinion, fe saif eglwys hardd. Fe'i hadeiladwyd yn 1875 gan y Methodistiaid Calfinaidd ac am dros dri chwarter canrif bu'n gartref ysbrydol i'r Cymry oedd yn byw ac yn bod o'i chwmpas. Nid hwn oedd yr unig gapel Cymraeg wrth gwrs – 'roedd capel Heywood Street i'r gogledd, capel Pendleton yn Salford, heb sôn am amryw eraill oddi amgylch mewn llefydd fel Altrincham, Bolton, Rochdale, Ashton a Stockport – ond fe gredaf mai Moss Side oedd y mwyaf. Pan ddois i'r Brifysgol fel myfyriwr yn yr Hydref 1957, 'roeddwn yn aros yn Fallowfield ac eglwys Moss Side oedd hefyd yr un mwyaf cyfleus i mi. Ar y pryd yr oedd bron i ddau gant o aelodau a'r gweinidog oedd y Parch. Llewelyn Hughes. A bod yn onest, 'dw'i ddim yn cofio llawer am y gwasanaethau erbyn hyn ond mae gennyf ryw go' am gyfarfod pan oedd dyfodol yr eglwys yn cael ei drafod. 'Roedd problem gyda'r adeilad, pryder am y gost o'i atgyweirio, ac os nad oeddynt am atgyweirio, dadl dros ei werthu i'r Catholigion o wlad Pwyl. 'Doedd pawb ddim o blaid, a 'rwy'n cofio un o'r blaenoriaid yn siarad yn gryf yn erbyn y gwerthiant i'r fath bobl, ond gwerthu a fu, a hynny yn ystod 1958. Bu'r aelodau yn cyfarfod am ddwy flynedd mewn ystafell yn

Eflyn a minnau gyda Mr. Leszed Pawlik, Cadeirydd Y Pwyllgor Lleol, a'i wraig

Grosvenor Street cyn prynu darn o dir yn West Didsbury, ac yno yr adeiladwyd capel Oaker Avenue. Daeth cyfnod Grosvenor Street i ben ac fe agorwyd y capel newydd yn Ebrill, 1962.

Dyna'r cefndir. '*Fast forward*' fel y dywedir i brynhawn Sul ar ddechrau mis Tachwedd 2009 pan ddaeth gŵr bonheddig atom i ystafell y Blaenoriaid yn Noddfa Oaker Avenue cyn dechrau y gwasanaeth a dyma ei neges: 'roedd yr eglwys Gatholig ym Moss Side yn dathlu hanner can mlwyddiant ei sefydliad gyda gwasanaeth arbennig ar Sul y 22ain o Dachwedd ac yr oeddynt yn awyddus i estyn gwahoddiad i ni yrru cynrychiolwyr i'r cyfarfod. Yr oedd yn amlwg eu bod yn hynod ddiolchgar i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am fod yn barod i werthu yr adeilad iddynt mewn cyfnod pryd yr oedd cryn wrthwynebiad i'r Eglwys Gatholig mewn mannau. Derbyniodd Eflyn a minnau y gwahoddiad ar ran yr eglwys a dyna sut y buom yn cychwyn ar fore Sul unwaith yn rhagor i gyfeiriad Moss Side.

Oddi allan i'r adeilad, 'roedd y Ddraig Goch i'w gweld gyda banner gwlad Pwyl ar un ochr iddi a banner yr Eglwys yr ochr arall. Oddi mewn yr oedd tyrfa wedi dod ynghyd, llawr yr eglwys a'r galeri yn llawn, a phawb yn siarad iaith hollol ddiarth i ni. Cawsom ein tywys i'r sedd blaen a'n rhoi gyda phâr ifanc – llys-gennad o wlad Pwyl ar gyfer Manceinion, â'i wraig – ac yna dechreuodd y gwasanaeth am hanner dydd. Daeth gorymdaith o offeiriaid mewn gwisgoedd crand i mewn a chymeryd eu lle ac yna fe gafwyd gair o groeso gan un ohonynt i'r gynulleidfa yn gyffredinol ac i rai ymwelwyr yn arbennig. Sawl gair a dweud y gwir, gan i bawb fod yn sefyll ar eu traed drwy gydol yr araith am chwarter awr beth bynnag. A ninnau yn deall dim, anodd oedd dilyn, ond gan i'r siaradwr edrych i'n cyfeiriad ni ar un adeg, a gwenu, cawsom gyfle i adnabod un gair beth bynnag: *Evans*. Aeth y gwasanaeth ymlaen gyda rhai o'r gynulleidfa yn dod ymlaen i ddarllen, grwp o ferched mewn gwisgoedd traddodiadol yn canu, yr offeiriaid yn gwneud eu gwaith a'r gynulleidfa yn canu gyda hwynt. Braf oedd cael teimlo fod cerrig yr hen gapel, a glywsant lawer i Gymanfa Ganu yn y gorffennol, yn dal i atsain i frwdfrydedd cynulleidfa yn moliannu Duw. Yn ystod y gwasanaeth cawsom ein galw ymlaen, ymhlith eraill, i dderbyn bathodyn a thystysgrif o ddiolch o law yr Archesgob a oedd wedi dod o Rufain i'n cyfarch.

Trist yw gweld capeli ac eglwysi wedi cau eu drysau, yn cael eu defnyddio ar gyfer busnes neu yn cael eu dymchwel. Dyna fu hanes llawer i gapel ac eglwys yma ym Manceinion a thrwy Gymru hefyd. Cymaint gwell felly yw gweld eglwys Moss Side heddiw yn fyw ac yn dal at y gwaith o gynnal y credinwyr. Am hanner can mlynedd mae hi wedi bod yn gartref ysbrydol a diwylliannol i'r Pwyliaid yn ein plith, fel y bu i'r Cymry gynt. Yn ystod y

Eglwys Moss Side, oddi allan ac oddi mewn

(parhad ar dudalen 2)

Golygyddol

Celwydd a Gwirionedd

Fel sawl un arall y gwn amdano diffodd Radio Cymru am hanner awr wedi wyth y bore yw'r arferiad yma bellach, a hynny am sawl rheswm. Ond ychydig cyn y Nadolig llynedd dyma ddigwydd clywed cynffon o'r rhaglen cyn y newyddion am naw y bore a chlywed llais Eleri Sion yn hawlio mai Sion Corn oedd y dylanwad mwyaf ar y Nadolig erioed ! Yna fe aeth ymlaen i honni y byddai'r gŵr dylanwadol hwnnw'n siarad yn fyw ar y rhaglen cyn bo hir, a dyna ddau gelwydd o fewn ychydig funudau.

Ar y llaw arall roeddwn newydd ddarllen am Yr Archesgob Rowan Williams yn cyhuddo'r gwleidyddion o wthio cred i ymylon pellaf bywyd yn fwriadol hollol, a thrwy hynny lasdwreiddio dylanwad ac ystyr y Nadolig arnom i gyd, a dyna i chwi lond tudalen o wirionedd. Diolch o galon iddo am ei ddewrder yn dweud hynny.

Na, nid Sion Corn yw'r dylanwad mwyaf ar y Nadolig er gwaethaf honiad Eleri Sion ac er gwaethaf ein gwleidyddion a sawl un arall sydd wedi troi'r Ŵyl yn esgus i elwa'n hael. Person ffug yw Sion Corn, person sy'n diflannu unwaith mae'r tinsel yn colli ei liw a'r papur sgleiniog wedi ei rwygo oddiar yr anrhegion, a ffug fyddai'r llais ar y radio hefyd. Dyw Sion Corn ddim yn bodoli ar fore'r Pasg, ond fe wyddom am Un a ddaeth ar y Nadolig cyntaf un a rhoi ystyr canolog i lawenydd pob Nadolig wedyn, ac mae ei ddylanwad wedi ymestyn ar draws y blynyddoedd.

Wrth i glychau ffug Sion Corn ddiflannu i dawelwch nosau'r flwyddyn newydd yma, ac i eiriau anffodus Eleri Sion wneud lle i raglen arall gadewch inni sylweddoli bod gwir ystyr y Nadolig gyda ni holl ddyddiau'r flwyddyn. Fe fydd ei lais O i'w glywed er gwaethaf ymdrechion rhai i'w dawelu ac i gam ddehongli'r Nadolig ac all neb ddiffodd ei alwad ar donfedd y gwirionedd chwaith. Cofiwch wrando.

John Gruffydd Jones.

NEWID AELWYD (parhad)

THE POLISH CATHOLIG MISSION
ENGLAND AND WALES

Dear Members of Eglwys Bresbyteraidd Cymru,

Please accept this **Gold Cross of the Polish Catholic Mission** in recognition of the gratitude of the Polish Catholic Mission for allowing the Polish Catholic Community in Manchester to acquire your church back in 1959.Your generous and truly ecumenical gesture enabled Poles who found themselves living in this part of the England to practice their faith in the traditions of their forefathers. With all best wishes, Yours in Christ,

Monsignor Tadeusz Kukla *Vicar Delegate for Poles in England and Wales*

L dz. 452/2009 London, 23 October 2009

Y Dystysgrif o ddiolch

cyfnod, fe aeth cynulleidfa y Pwyliaid i lawr hefyd – y gynulleidfa yn heneiddio a llai o rai newydd yn dod – ond y maent wedi elwa o'r mewnfudiad sydd wedi cymeryd lle yn ddiweddar ac yn awr y mae angen tri gwasanaeth ar y Sul.

Wedi'r gwasanaeth, yr oedd pryd o fwyd ar ein cyfer yn y festri – 200 yn eistedd i lawr – a ninnau ar y bwrdd pwysig hefo'r archesgob a'r offeiriaid a'r llys-gennad. Wedi'r bwyd cefais wahoddiad i ddweud gair ac yr oeddwn yn falch o gael gwneud hynny. Yr oedd y croeso a gawsom wedi bod mor wresog, eu gwerthfawrogiad o'r ffaith fod y Cymry wedi bod yn barod i werthu yr adeilad iddynt mor amlwg, mae hawdd oedd siarad o'r galon a chydnabod eu caredigrwydd tuag atom. Manteisiais ar y cyfle i adrodd yn y Gymraeg un bennill o emyn Williams Pantycelyn: *O am nerth i dreulio 'nyddiau yng nghynteddoedd ty fy Nhad* – d'oeddwn i ddim am fynd oddi yno heb i'r hen le gael clywed unwaith eto dipyn o'r hen iaith!

Elwyn Evans,
Noddfa Oaker Avenue

AM LYFR

gan Y Parch. IEUAN LLOYD, Llanfair P.G.

Llyfr Lloffion Cae'r Gors gan Dewi Thomas. Pris £6.50.

Gŵyr pawb sy'n gyfarwydd â hanes Cymru bod rhai personau â lleoedd arbennig yn gysylltiad anwahanadwy. Ceir cipolwg ar hynny yng "Nghartrefi Cymru" gan O. M. Edwards. Ac erbyn hyn daeth rhai o aelwydydd ein gwlad yn rhan o'n treftadaeth genedlaethol. Ac un o'r rheini yw Cae'r Gors. Y mae'r hen gartref wedi ei adfer i'r hyn oedd yng nghyfnod plentyndod Dr. Kate Roberts, a bellach daeth yn gyrchfan i ymwelwyr. Y mae awdur y gyfrol hon wedi ymddiddori yng ngwaith llenyddol Kate Roberts ers blynyddoedd, a ffrwyth ei lafur yw cynnwys y gyfrol.

Y mae'n naturiol bod y Lôn Wen sef hunangofiant y gwrthrych yn fath o gefndir i'r gyfrol, ac yn sicr y rnae'r gyfrol honno yn ddogfen bwysig o hanes cymdeithasol mewn cyfnod arbennig. Hanes diddorol iawn yw'r cyfnod sy'n olrhain hen deuluoedd Cae'r Gors, yn cynnwys wrth gwrs hanes teulu Kate Roberts. Y mae'r bennod sy'n canolbwyntio ar hanes y teulu yn cynnwys lluniau o'r teulu a'r rhai oedd yn gysylltiedig â hwy

"Cymdeithas â Diwylliant" yw teitl un o'r penodau, a llwyddodd yr awdur i grynhoi prif nodweddion y gymdeithas a fu'n fagwrfa i Kate Roberts. 'Roedd honno'n gymdeithas grefyddol, brysur, gymwynasgar a hyderus. Perthynai y rhan fwyaf o drigolion yr ardal i wahanol gymdeithasau. Teitl y bumed bennod yw "Y Kate Roberts Arall". Gwyddom mai trwy gyfrwng ei llyfrau yn bennaf y daeth hi yn adnabyddus yng Nghymru. Ond y mae'r bennod hon yn ein hatgoffa hefyd am ei chyfraniad mewn gwahanol feysydd, e.e. bu'n weithgar gyda chwmnïau drama o dro i dro. Bu hefyd yn feirniad mewn rhai o brif gystadleuthau'r Eisteddfod Genedlaethol. Yr oedd ymhlith rhai aelodau cynharaf y Blaid Genedlaethol. Ac wrth gwrs yr oedd yn rhan allweddol o Wasg Gee a'r Faner.

Y mae'r awdur yn crynhoi ei gwaith llenyddol yn y bennod olaf, gan danlinellu arbenigrwydd ei chrefft a'r prif themau yn ei gwaith. Cyfeirir at rai o frawddegau bachog yn ei gwaith llenyddol, brawddegau i gnoi cil arnynt. Gwelir enghreifftiau o hynny ar tud. 107 a 108. Y mae'r dywediadau hyn yn ddarlun ohoni hi ei hun yn ogystal ag o'i syniadau am fywyd. Credai y diweddar John Gwilym Jones (yn ôl yr awdur) mai y gyfrol "Tê yn Grug" yw'r man cychwyn i adnabod Kate Roberts. Yn sicr y mae'r eglurhad ar tud 110 yn ddarn o glasur llenyddol.

Cynhaliwyd cyfarfod i ddiolch am ei chyfraniad yn Y Capel Mawr, Dinbych ar Awst 4ydd, 1985. Y mae'r Englyn o waith Mathonwy Hughes a argaffwyd ar y daflen yn un gwerth ei gofio:

"Chwerw alaeth bro'r chwareli – a naddodd
Yn llenyddiaeth inni,
Heniaith hon a'i rhyddiaith hi
Heddiw sy'n gofeb iddi."

Efallai y bydd darllen y gyfrol hon yn deffro awydd yn rhywun i droi yn ôl at gynnyrch llenyddol Kate Roberts. Y mae gan yr awdur hefyd nifer o gwestiynau y gellid eu defnyddio mewn cylch trafod. Credaf y buasai darllen y gyfrol yn baratoad arbennig i unrhyw un a ddymunai gyrraedd Cae Gors.

Taro'r Post

Annwyl Olygydd,

Gwelais erthygl ar wefan y BBC yn ddiweddar: (http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/bristol/8423265.stm) Rwy'n teimlo reit ddigalon fod pobol yn medru bod yn ddi-deimlad ynglŷn â chrefydd Gristnogol. Daeth y wybodaeth yma i'n sylw ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.

Sion Jones,
Bryngwyn, Castell Newydd Emlyn.